**Polisi Cyfle Cyfartal Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ymrwymedig i ymdrin â phawb ag urddas a pharch gan beidio rhagfarnu yn erbyn neb ac i wneud pa bynnag addasiadau sydd yn rhesymol bosib er mwyn i bawb fod â chyfle cyfartal fel staff, aelodau ac aelodau ei fyrddau a'i bwyllgorau, yn ogystal â phob un sy'n dod i ddigwyddiadau, gweithdai neu'n sefyll arholiadau'r Gymdeithas.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn wrth roi mynediad neu ddarparu gwasanaeth, a byddwn yn barod i herio a diweddu unrhyw weithred sy'n gwahaniaethu yn erbyn un o'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb (2010): oed, rhywedd, newid rhywedd, statws priodasol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo.

**Digwyddiadau, Gweithdai ac Arholiadau**

Mae darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y ddyletswydd i wneud newidiadau rhesymol i hwyluso mynediad a chynhwysiant i bobl anabl.


Gofynnir i bawb sy'n cofrestru ar gyfer digwyddiadau, gweithdai ac arholiadau'r Gymdeithas os ydynt ag anghenion dietegol a/neu fynediad. Cynhelir arholiadau a digwyddiadau'r Gymdeithas mewn adeiladau lle mae mynediad a chyfleusterau hygyrch.

Yn achos arholiadau, gofynnir i ymgeiswyr nodi ar y ffurflen gofrestru unrhyw amgylchiadau a/neu anghenion ychwanegol sydd ganddynt. Ystyrir pob achos yn unigol ac fe wnaiff y Gymdeithas ei gorau glas i hwyluso mynediad a chynhwysiant ym mhob sefyllfa, gan wneud pa bynnag addasiadau rhesymol sy'n ofynnol dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Mae'r Gymdeithas yn parchu'r egwyddor o gyfrinachedd ym mhob agwedd o'i waith gan gynnwys ym maes anghenion ychwanegol a bydd yn cadw unrhyw gofnod neu sylwadau am unigolyn yn gyfrinachol bob amser.

**Gwefan**

Mae gwefan y Gymdeithas yn ddwyieithog. Caiff y ddwy iaith eu diweddaru ar yr un pryd. Mae'r wefan yn cael ei gwirio ar gyfer addasrwydd ar gyfer teclynnau darllen testun ac ar gyfer addasrwydd ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg a rhai sydd yn lliwddall.




## Cyflogaeth

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal sydd yn ymrwymedig i sicrhau:

- amgylchedd gwaith sy'n hybu cyfle teg a chyfartal i bob aelod o'r staff.
- lle mae pawb yn cael ei drin yn deg, gyda pharch ac urddas.

Ni fydd y Gymdeithas yn trin unrhyw un yn fwy nac yn llai ffafriol ar sail ffactorau megis hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, cenedligrwydd, rhyw, tueddiad rhywiol, statws priodasol, anabledd, oed, crefydd/credo.

Bydd y Gymdeithas yn dosbarthu copïau o'i Bolisi Cyfle Cyfartal ymysg ei staff ac aelodau ei Fyrddau/Paneli i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau yng nghyd-destun gweithredu'r polisi hwn.

Bydd y Gymdeithas yn trefnu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'w staff ac aelodau'r Bwrdd.

### Datblygiad Proffesiynol a Phersonol

Ymrwymir i annog pob aelod o'r staff i gyrraedd ei botensial llawn yn y gwaith a rhoddir cyfle cyfartal i bob unigolyn ddilyn cyrsiau hyfforddi sy'n briodol i'w swydd sy'n meithrin ei ddatblygiad proffesiynol a phersonol.

### Cefnogaeth Ymarferol

Bydd y Gymdeithas yn ymateb gyda chydymdeimlad i staff sydd am amrywio eu dyddiau/oriau gwaith er mwyn delio gydag amgylchiadau teuluol e.e. gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill.

**Penodi Staff**

Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i bob cais am swydd gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan sicrhau na wahaniaethir yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn unrhyw ymgeisydd. Nid yw'r Gymdeithas yn gofyn am ddyddiad geni mewn ffurflenni cais.

Wrth lunio rhestr fer ar gyfer swydd, bydd y panel penodi yn gwneud hynny'n "ddall". Hynny yw ni fydd enw, dyddiad geni, oed na dyddiadau allweddol eraill yn ymddangos ar y ffurflenni/llythyr cais na'r curriculum vitae.

Byddwn yn gofyn i bob ymgeisydd sy'n cael gwahoddiad i gyfweliad os ydyn nhw angen unrhyw addasiadau, neu os oes ganddynt unrhyw anghenion mynediad.

**Aflonyddu**

Bydd y Gymdeithas yn cymryd diogelwch a lles pawb sy'n ymwneud â hi o ddifri ac yn gweithio i atal unrhyw ymddygiad anoddefgar. Ni fydd y Gymdeithas yn goddef unrhyw fath o aflonyddu yn y gwaith ac fe hybir perthynas waith parchus ac urddasol rhwng unigolion a'i gilydd ar bob achlysur.

**Trefniadau disgyblu a chwyno**

Os yw aelod o'r staff yn dymuno cwyno am achos o wahaniaethu, erledigaeth neu aflonyddu yn y gwaith, gall droi at Drefn Gwyno Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

**Dyddiad:** Mai 2025
**Dyddiad adolygu:** Mai 2028